

# Grant Cyfalaf Cynnig Gofal Plant

## Bro Morgannwg

Ebrill 2019 – Mawrth 2021

### Cyflwyniad a Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Yn dilyn cynnig llwyddiannus i Lywodraeth Cymru, mae Cyngor Bro Morgannwg wedi derbyn cyllid ar gyfer cynllun grant bychan i gefnogi gwaith cyfalaf mewn lleoliadau gofal plant sydd wedi **cofrestru i gynnig lleoedd Cynnig Gofal Plant i blant 3 a 4 oed ym Mro Morgannwg**.

Mae'r grant yn hanfodol i gefnogi lleoliadau gofal plant drwy ariannu gwaith cyfalaf hanfodol i'w galluogi i gynyddu nifer y lleoedd y gallant eu cynnig a/neu wella ansawdd y cyfleusterau maen nhw'n eu cynnig.

Bydd ceisiadau cyllid yn dod ar gael ar 29 Ebrill 2019 a 01 Ebrill 2020, a gallai dyddiadau ychwanegol gael eu hychwanegu yn amodol ar gyllid ychwanegol.

#### Darllenwch yn ofalus cyn cwblhau ffurflen gais

#### Cymhwysedd

Mae'r lleoliad Gofal Plant:

- wedi'i gofrestru gyda Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) -
- ym Mro Morgannwg ac yn cynnig lleoedd Cynnig Gofal Plant i blant 3 a 4 oed

#### Sylwer:

- Gall ceisiadau gael eu gwneud gan leoliadau sydd wrthi'n gwneud cais i gofrestru gydag AGC. Fodd bynnag, gallai Cyngor Bro Morgannwg ofyn am ragor o wybodaeth i gefnogi eich cais.
- Dim ond i **UN** awdurdod lleol y gall lleoliadau gofal plant wneud cais am grant, er eu bod o bosib yn derbyn plant o awdurdodau lleol gwahanol.
- Gall mwy nag un cais gael ei wneud, yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.

#### Gwybodaeth bwysig:

- Drwy dderbyn unrhyw gynigion cyllid, mae'r ymgeisydd yn cytuno i gynnig lleoedd Cynnig Gofal Plant am **o leiaf 5 mlynedd** o'r dyddiad y caiff y cyllid grant ei dalu. Os na fydd yr ymgeisydd yn derbyn plant drwy'r Cynnig, bydd yn agored i orfod ad-dalu'r cyllid cyfan a dalwyd, neu ran ohono.
- Bydd angen i leoliadau gofal plant sydd wedi ennill grant cyfalaf gydnabod hyn ar eu deunyddiau hyrwyddo/marchnata.

# Cwblhewch bob adran o'r ffurflen gais

## Grant Cyfalaf Cynnig Gofal Plant Bro Morgannwg 2019 - 2021

### Ffurflen Gais

Enw Lleoliad Gofal Plant:

#### MANYLION CYSWLLT Y CAIS

Enw Cyswllt		Ffôn	
Cyfeiriad Lleoliad		Cyfeiriad gohebu os yn wahanol i gyfeiriad y lleoliad	
Cod post			
Rhifau ffôn		E-bost	

A yw'r adeilad lle mae'r gofal plant yn cael ei gynnig:  yn berchen i chi?  yn cael ei rentu?

*Os yw'n cael ei rentu, bydd angen i chi gyflwyno llythyr gan eich landlord yn dweud ei fod yn hapus i unrhyw waith cyfalaf gael ei wneud yn yr eiddo.*

#### Ym mha ward(iau) Etholiadol mae'r lleoliad gofal plant?

Penarth	Y Barri	Gwledig
<input type="checkbox"/> Cornerswell <input type="checkbox"/> St. Awstin <input type="checkbox"/> Stanwell <input type="checkbox"/> Plymouth	<input type="checkbox"/> Baruc <input type="checkbox"/> Buttrills <input type="checkbox"/> Catwg <input type="checkbox"/> Castleland <input type="checkbox"/> Court <input type="checkbox"/> Dyfan <input type="checkbox"/> Gibbonsdown <input type="checkbox"/> Illtyd	<input type="checkbox"/> Y Bont-faen <input type="checkbox"/> Llandŵ/Ewenni <input type="checkbox"/> Llanilltud Fawr <input type="checkbox"/> Sain Tathan <input type="checkbox"/> Saint-y-brid <input type="checkbox"/> Y Rhws <input type="checkbox"/> Dinas Powys <input type="checkbox"/> Llandochau <input type="checkbox"/> Sili <input type="checkbox"/> Llanbedr-y-fro <input type="checkbox"/> Gwenfô

#### CEISIADAU WEDI'U CWBLHAU I'W DYCHWELYD I:

Debbie Maule  
Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc,  
Swyddfeydd Dinesig,  
Heol Holltwn,  
Y Barri  
CF63 4RU  
dmaule@valeofglamorgan.gov.uk

#### Defnydd Swyddfa yn Unig

- Gwrthod  
 Cymeradwyo

£

Llofnod:

### Pa wasanaeth(au) mae eich lleoliad yn ei gynnig? Ticiwch bob un sy'n berthnasol

- Meithrinfa Cyfnod Sylfaen (Darpariaeth Addysg Gynnar)
- Sesiynol (Grŵp/Cylch Chwarae)  Gofal Dydd Llawn (meithrinfa ddydd a Gwarchod Plant)
- Cofleidiol  Clwb ar ôl Ysgol
- Gofal Plant Gwyliau
- Arall, nodwch .....

### Nifer y plant sy'n mynychu

Ar yr adeg gwneud cais am grant, nodwch nifer y plant sydd yn eich lleoliad:

Dan 3  3 a 4 oed  Dros 5

### Cofrestru i gynnig lleoedd cynnig gofal plant

Ydych chi wedi cofrestru gydag Awdurdod Lleol Casnewydd i gynnig lleoedd cynnig gofal plant?

Ydyn: Nodwch y dyddiad cofrestru: .....  Nac ydyn

Faint o leoedd cynnig gofal plant ydych chi'n disgwyl eu cynnig?

O leiaf  Dim mwy na

### Ydych chi wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)?

- Ydyn – Rhif cofrestru .....
- Nac ydyn, ond rydym yn gweithio tuag at gael ein cofrestru ar hyn o bryd  
Tua phryd y byddwch yn cael eich cofrestru? .....

### Pa sefydliad(au) y mae eich lleoliad chi yn gysylltiedig ag ef/yn aelod ohono?

- Clybiau Plant Cymru
- NDNA (Y Gymdeithas Meithrinfeydd Dydd)
- Genedlaethol  
Menter Bro Morgannwg
- Blynnyddoedd Cynnar Cymru
- PACEY
- Mudiad Meithrin

### GDG ac Amddiffyn Plant

Ticiwch y bocs i gadarnhau bod gan **bob** aelod o staff wiriad GDG diweddar a bod **pob** aelod o staff wedi cael Hyfforddiant Diogelu/Amddiffyn Plant diweddar.

GDG  Diogelu/Amddiffyn Plant

### Cynllun Safonau Ansawdd Bro Morgannwg – ticiwch y bocs priodol

Ym mis Ebrill 2016, cyflwynodd y Bartneriaeth Blynnyddoedd Cynnar Gynllun Safonau Ansawdd i ddarparwyr gofal plant. Nod y cynllun yw creu safon leol sy'n uwch na'r gofyniad cyfreithiol h.y. y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, a bod yn garreg camu tuag at gyflawni cynllun Sicrwydd Ansawdd a gydnabyddir yn genedlaethol, i gefnogi darparwyr i wella eu gwasanaeth a galluogi rhieni a gofalwyr i wybod bod y ddarpariaeth maent yn ei dewis i'w plentyn yn cynnig gwasanaeth o ansawdd uchel. Bydd angen i unrhyw un sydd am wneud cais am grant gwblhau'r Cynllun Safonau Ansawdd.

- Ydw, rwyf wedi cwblhau a chael tystysgrif ar gyfer cynllun Safonau Ansawdd y Fro (wedi'i hatodi i'r cais)
- Ydw, rwyf wrthi'n gweithio tuag at gyflawni cynllun Safonau Ansawdd y Fro
- Nac ydw, dydw i heb ar hyn o bryd ond rwy'n deall bod angen cwblhau cynllun Safonau Ansawdd y Fro i dderbyn grant, a hynny o fewn amserlenni a gytunwyd.

### Esboniwch raddfa'r galw am ofal plant yn eich ardal, gan ystyried gofal plant arall yn yr ardal honno.

### A gafodd eich lleoliad unrhyw rai o'r grantiau canlynol yn ystod 2018-19?

- Grant Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol £.....
- Grant Cynaliadwyedd £.....
- Grantiau eraill, nodwch .....

## Beth galiwch ei ariannu? Cofiwch fod y cyllid cyfalaf ar gyfer plant 3 a 4 oed yn eich lleoliad

### Rhoddir cyllid ar gyfer: Ticiwch

- Gwaith adnewyddu cyffredinol, gan gynnwys peintio, adnewyddu carpedi ac ati.
- Gwella cyfleusterau chwarae awyr agored y lleoliad, fel gosod arwyneb newydd neu adeiladu cysgod
- Gosod nodweddion a ffitiadau newydd neu eu trwsio, fel tai bach, cyfleusterau cegin, ffenestri, drysau ac ati
- Offer/dodrefn/teganau newydd yn lle hen rai a allai achosi risg iechyd a diogelwch. e.e. ffrâm ddringo sydd wedi rhydu, dodrefn sydd wedi torri neu sydd mewn cyflwr gwael ac ati.
- Offer TG, os gellir dangos yn glir bod ei angen i gynnig lleoedd Cynnig Gofal Plant. Gallai hyn gynnwys gliniaduron, argraffwyr ac ati.
- Addasiadau i'r lleoliad i wella mynediad/cyfleusterau ac ati.
- Offer/dodrefn pwrpasol a fydd yn galluogi darparwr i ddarparu ar gyfer plentyn ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

**SYLWER: Lle bo lleoliad gofal plant ar un o safleoedd Bro Morgannwg e.e. ysgol, canolfan gymunedol ac ati, rhaid cwblhau'r gwaith dan gyfarwyddyd adrannau perthnasol yr awdurdod lleol, felly cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda.**

## Beth na allwch ei ariannu?

Mae'r cyllid grant ar gyfer pryniadau **cyfalaf** yn unig, felly ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer:

- Prynu eitemau untro, fel papur, deunydd glanhau, cewynnau ac ati
- Costau staff fel cyflogau, hyfforddiant, trafnidiaeth a chynhaliaeth
- Biliau fel nwy, trydan, ardrethi
- Wi-Fi
- Costau yswiriant e.e. yswiriant adeilad, yswiriant atebolrwydd cyflogwr ac ati

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr; os oes gennych unrhyw amheuan, e-bostiwch cyn cwblhau ffurflen gais. Manylion ar flaen y ffurflen gais.

## Y pethau rydym yn gwneud cais amdanynt Cofiwch fod y grant cyfalaf hwn yn benodol ar gyfer y plant 3 a 4 oed yn eich lleoliad

Eitemau a'u dibenion (sicrhewch eich bod yn cael ac yn atodi 3 dyfynbris ar gyfer darnau mawr o waith)	Cost
<b>Cyfanswm</b>	£

**Bydd angen i chi gynnwys eich 3 cyfriflen banc ddiweddaraf a set o gyfrifon wedi'u llofnodi/archwilio**

**Sut bydd y grant yn helpu i wella ansawdd y lleoedd gofal plant?**

## Dyddiadau'r cais a chyfnod hysbysu

Bydd ffurflenni cais am grant ar gael ar:

29 Ebrill 2019 - dyddiad cau ar gyfer cwblhau a dychwelyd cais yw 31 Mai 2019

01 Ebrill 2020 - dyddiad cau ar gyfer cwblhau a dychwelyd cais yw 15 Mai 2020

**Gallai dyddiadau pellach gael eu hychwanegu yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael**

### Penderfyniadau

Bydd panel yn cael ei enwebu ac yn cwrdd i drafod y ceisiadau sydd wedi dod i law. Bydd meini prawf llym yn cael eu gosod a bydd ceisiadau'n cael eu sgorio'n erbyn y rhain.

Gall y panel ofyn am ragor o wybodaeth i egluro neu atgyfnerthu eich cais.

Rydym yn anelu at roi penderfyniad i ymgeiswyr o fewn 2 wythnos i'r dyddiad cau.

Os nad ydych yn hapus â phenderfyniad y panel, gallwch apelio.

## Adroddiad gwariant

Bydd angen i bob ymgeisydd llwyddiannus gwblhau a chyflwyno adroddiad gwariant ar gyfer cyfanswm y grant a roddwyd.

Bydd angen cyflwyno'r holl dderbynebaw/profion prynu fel rhan o'r adroddiad.

Os na fydd y pryniadau yn unol â'r eitemau a gytunwyd, bydd yn rhaid i chi ad-dalu'r grant.



### Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

A yw eich manylion wedi'u diweddarau ar gronfa ddata'r **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd**? Diweddarwch eich manylion yma, neu cysylltwch â'r tîm ar 01446 704704. Byddant yn hapus i'ch helpu.

## Telerau ac amodau'r grant

### Darllenwch y telerau ac amodau canlynol yn ofalus cyn llofnodi a chyflwyno eich cais

- Rwyf wedi darllen a deall y ffurflen gais, gan gynnwys y cyflwyniad a'r wybodaeth a roddwyd.
- Rwy'n deall y bydd un o swyddogion Bro Morgannwg yn ymweld yn ddirybudd i gadarnhau gwariant a'r gwaith sy'n cael ei wneud.
- Rwy'n deall bod y cyllid yn amodol ar archwiliad blynyddol ac yn cytuno i lunio adroddiad ar wariant yn ôl gofynion y grant ac at ddibenion archwilio mewnol.
- Os bydd y lleoliad yn cau o fewn y cyfnod o 5 mlynedd, rwy'n deall y bydd angen i mi ddychwelyd yr holl gyllid neu ran o'r cyllid. Bydd unrhyw wariant sydd heb ei wario hefyd yn cael ei ddychwelyd.
- Caiff y cyllid a roddir ei ddefnyddio yn unig gan y lleoliadau hynny sydd wedi cofrestru i ddarparu lleoedd Cynnig Gofal Plant.
- Bydd angen i leoliadau gofal plant sy'n cael grant cyfalaf gydnabod hyn mewn deunydd hyrwyddo/marchnata a roddir i rieni. Dylid defnyddio'r brand Cynnig Gofal Plant (ar frig y ffurflen gais).

**Drwy lofnodi rwy'n cadarnhau fy mod yn cytuno ar Delerau ac Amodau'r grant a bod y wybodaeth a roddwyd yn gywir.**

**Llofnod:**

**Enw:**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

### **Cadwch gopi o'ch ffurflen gais wedi'i chwblhau at eich cofnodion.**

#### **Rhestr Wirio** ✓

- Wedi cwblhau pob adran o'r ffurflen gais
- Wedi cynnwys llythyr gan landlord (os yn berthnasol)
- Wedi atodi 3 dyfynbris – **O.N. ni chaiff grantiau eu dyfarnu ar gyfer gwaith cyfalaf sydd eisoes wedi'i gwblhau.**
- Wedi cynnwys fy 3 cyfriflen banc ddiweddaraf a set o gyfrifon wedi'u llofnodi/archwilio
- Wedi darllen telerau ac amodau'r grant
- Ffurflen wedi'i llofnodi

#### **Ceisiadau wedi'u cwblhau i'w dychwelyd erbyn 31 Mai 2019 i:**

Debbie Maule,  
Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc,  
Swyddfeydd Dinesig,  
Heol Holltwn,  
Y Barri CF63 4RU  
dmaule@valeofglamorgan.gov.uk

**Sicrhewch fod eich dull postio'n briodol wrth bostio'r ffurflenni yn ôl, oherwydd ni allwn eu derbyn fel arall.**